**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth Rhagfyr 12fed am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cyng Rob Parkes (Cadeirydd), Lara Pritchard (Dirprwy Gadeirydd), Dyfrig Berry, Rhys Thomas, Alyn Ashworth & Gwawr Cordiner; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Philip Stevens.

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod mis Rhagfyr.

1. **Datgan Diddordeb Personol:**

| Cynghorydd | Eitem | Niweidiol | Personol |
|---|---|---|---|
| Rob Parkes | 6.5 | | Ia |

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar nos Fawrth 17eg o Hydref 2017.**
   Yng nghyfarfod cynllunio mis Tachwedd nid oedd cynghorydd yn bresennol i aelio cofnodion cyfarfod mis Hydref. Eiliwyd hyn ar y 12fed o Ragfyr gan y Cyng Rob Parkes.

3. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar nos Fawrth 21ain o Dachwedd 2017.**

4. **Materion yn codi:** Dim

5. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Cafwyd trafodaethau ynglŷn â'r cais isod (1). Roedd clerc y dref wedi derbyn gwybodaeth ychwanegol gan Sarah Stubbs o Gyngor Sir Ddinbych gan ddweud eu bod wedi bod mewn cysylltiad ag asiant Mencap yn gofyn am fanylion dwyieithog - manylion pellach i'w derbyn maes o law.
   O ystyried hyn, cytunodd y Cynghorwyr mewn egwyddor y cais isod ond hoffent gael arwydd dwyieithog wedi'i chodi.

(1) 01/2017/0987
Mencap, Parc Siopa Dinbych, Heol yr Orsaf, Dinbych.
Arddangos arwydd fascia heb ei oleuo.

Ni wnaed unrhyw wrthwynebiad ar gais 2 a 3.

(2) 01/2017/1089
44 Ffordd y Dyffryn, Dinbych.
Torri 1 goeden Leylandii yn Ardal Gadwraeth Dinbych.

(3) 01/2017/1090
Grove Hurst, Lon Ganol, Dinbych.
Tynnu 5 choed yn ardal gadwraeth Dinbych.

Cynhaliwyd trafodaethau ar gais 4. Codwyd pryderon gan drigolion lleol ynglŷn â diogelwch y safle yn ogystal â bod yn flêr.
Cytunodd y Cynghorwyr i wrthwynebu estyniad y caniatâd cynllunio 5 mlynedd gan fod yr ardal yn cael ei ystyried yn anniogel ac yn flêr. Nid yw ymestyn yr amserlen yn datrys y mater.

Hefyd mewn perthynas â diwygiadau'r cyflwr arall, roedd y Cynghorwyr yn ansicr ynghylch yr union newidiadau y gofynnwyd amdanynt. Gyda hyn mewn golwg maent yn gofyn i'r cais gael ei gyfeirio yn ôl i'r Sir gyda golwg ar ofyn am gais newydd. Bydd angen edrych ar hyn gan bwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir ac nid gan swyddogion cynllunio.

(4) 01/2017/1105
Tir rhwng 6 & 8 Beacons Hill, Dinbych.
Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio rhif 01/2011/0665 i ganiatáu 5 mlynedd arall i'w gychwyn; Manylion y briff dylunio archeolegol yn unol ag amod rhif 5; Manylion deunyddiau waliau a tho allanol yn unol ag amod rhif 6 a dileu amodau 12,13 a 14 mewn perthynas â chod cartrefi cynaliadwy.

Ni chyflwynwyd unrhyw wrthwynebiad ar gais 5.

(5) 01/2017/1115
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych.
Addasiadau ac estyniadau I Gapel Gorffwys.

**6. Arwyddion busnesau yn ardal Gadwraeth tref Dinbych.**

Trafodwyd yr eitem hon yn ar ôl y cais cynllunio cyntaf.
Rhoddodd y Cyng Gwawr Cordiner drosolwg o'r materion cyfredol yn Ninbych yn ardal Cadwraeth y Dref. Gwnaed llawer o welliannau i fusnesau yn Ninbych o dan y Fenter Treftadaeth Treflun (FTT) yn ogystal â grantiau a gyhoeddwyd.
Mae ychydig o fusnesau yn y dref wedi codi arwyddion newydd nad ydynt yn gyd-fynd â'r dref a hefyd nid yn ddwyieithog. Angen cadw cymeriad, treftadaeth a natur unigryw Dinbych. Mae'r ardal gadwraeth yn Ninbych wedi'i ymestyn. Mae Stryd y Dyffryn yn brydferth ac fel Cyngor Tref mae angen sicrhau a rheoli'r ardal gadwraeth ar gyfer y dyfodol.
Gofynnodd y Cyng Cordiner am anfon llythyr at adran gynllunio Sir Ddinbych i wybod pa drefniadau sydd gan Gyngor Sir Ddinbych ar waith gyda'r canllawiau cynllunio atodol ar gyfer ein tref hanesyddol a sut y caiff ei weithredu a'i fonitro.

Yn ddiweddar mae arwyddion newydd wedi'u rhoi -
Lidl - gofynnodd y cyngor tref am arwyddion dwyieithog.
Peacocks - y datblygiad newydd yn Ffordd yr Orsaf, mae'r mwyafrif o'r siopau wedi glynu wrth y cais dwyieithog.
Ezibites & E-cig - roedd gan yr hen gigyddion Bodidris arwyddion wedi'u paentio gyda llaw a oedd yn cyd-fynd â'r lleoliad, nid yw'r rhai newydd yn addas ac nid yn ddwyieithog. Dylai fod cyfrifoldeb hefyd am landlordiaid i reoli hyn yn well, mae'r adeilad yn eiddo i'r clwb Ceidwadol.
Gwesty'r Eagles, Lon Gefn - nid yw'r arwyddion ar yr adeilad rhestredig yn cyd-fynd â rheoliadau, a yw'r Sir yn gwneud unrhyw beth i unioni hyn.

Mae trigolion a busnesau lleol hefyd yn anfodlon ynghylch yr arwyddion diweddar. Mae aelodau drysau agored a Chanllawiau Taith Tref Dinbych yn ei chael hi'n fwy anodd trafod yr adeiladau a'r ardal restredig pan fo arwyddion hollol amhriodol

yn yr ardal. Mae hefyd yn ei gwneud yn anodd tynnu ffotograffau o'n treftadaeth pan fydd yr arwyddion mor amlwg ac amhriodol.
Mae Dinbych wedi gweithio'n galed i reoli'r ardal gadwraeth ac nid yw'n cymryd amser hir i gael ei ddifetha.
Mae angen i'r Cyngor Tref weithio'n agos gyda'r Cyngor Sir ar y mater hwn
Dywedodd y Cyng Rhys Thomas fod y staffio yn adran gynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi gostwng yn ddramatig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae’n bwysig i Gynghorwyr Sir a Thref edrych ar geisiadau cynllunio yn ofalus a rheoli newidiadau yn y dref lle na ofynnwyd am gynllunio.
Dywedodd y Cyng Rhys Thomas hefyd fod Lidl wedi cysylltu a bydd yn newid yr arwyddion yn ddwyieithog maes o law.
Cytunodd cynghorwyr y dref y dylid anfon llythyr at yr adran gynllunio fel y nodwyd uchod.

Am nad oedd mwy i’w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.08 o’r gloch.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………